Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Asesiad o Effaith, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

## Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2027

### Asesiad o effaith

Nid ydym wedi cynnal asesiad llawn o'r effaith economaidd oherwydd nid ydym yn disgwyl i'r diwygiadau arfaethedig gael effaith ar fusnesau, elusennau na mudiadau'r sector gwirfoddol.

Byddai unrhyw gostau sy'n codi o'r cynigion yn dod o dan drefniadau cyllid cyhoeddus ac yn cael eu hystyried fel rhan o gynllunio gwariant adrannol.

### Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf neu oddi tani;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt; a
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

# Ystyriaethau Cydraddoldeb

### Gwahaniaethu Uniongyrchol

Nid ydym o'r farn y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, gan na fyddent yn trin unrhyw aelod o'r farnwriaeth yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

### Gwahaniaethu Anuniongyrchol

Rydym wedi ystyried a fyddai'r diwygiadau arfaethedig yn cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol a byddwn yn parhau i adolygu hyn yn ystod y broses ymgynghori. Mae'n bosibl y bydd rhai deiliaid swyddi barnwrol yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan ddiwygiadau, yn dibynnu ar eu rôl, aelodaeth o gynllun, neu oedran ac agosrwydd at ymddeol.

Lle mae potensial ar gyfer anfantais benodol, rydym wedi ystyried hyn yn ofalus ac wedi egluro isod pam rydym yn credu bod cyfiawnhad dros y cynnig.

### i. Yr estyniadau i'r dyddiadau cau ar gyfer dewis Cynllun Pensiwn Barnwrol Barnwyr y Telir Ffi Iddynt (FPJPS) a buddion ychwanegol

Disgwylir i'r newidiadau hyn fod yn fwyaf perthnasol i aelodau hŷn, gan fod cymhwysedd ar gyfer dewis bod budd-daliadau'n cael eu cyfrifo ar sail cyn neu ar ôl 1995 a/neu brynu budd-daliadau ychwanegol yn dibynnu ar fod â gwasanaeth cyn 31 Mawrth 1995, neu rhwng 31 Mawrth 1995 a 6 Ebrill 2006.

Daw'r dyddiadau cau presennol ar gyfer dewisiadau a phryniannau i ben ar 31 Mawrth 2027. Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae angen ymestyn y terfynau amser hyn oherwydd nad yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn sefyllfa ar hyn o bryd i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau i wneud y dewisiadau neu'r pryniannau hyn. Mae'r oedi hwn yn rhoi aelodau hŷn dan anfantais benodol, a bydd yr estyniadau'n cadw'r cyfle iddynt arfer hawliau gwerthfawr. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ystyried yn ofalus y cyfnod priodol ar gyfer ymestyn pob terfyn amser, er mwyn sicrhau bod ganddi ddigon o amser i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau, drwy ei gweinyddwyr pensiwn.

Rydym o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn gyfiawn fel ffordd gymesur ac angenrheidiol o gyflawni'r nod dilys o sicrhau bod gan aelodau ddigon o amser, gyda gwybodaeth gywir, i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hawliau pensiwn. Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd y diwygiadau arfaethedig hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

### ii. Y newidiadau i ffactorau ymddeol yn gynnar

Mae'r newid hwn yn debygol o fod yn fwyaf perthnasol i farnwyr hŷn sy'n aelodau o Ddeddf Pensiynau ac Ymddeoliadau Barnwrol 1993 (JUPRA) neu FPJPS ac sy'n agosáu at yr oedran ymddeol cynnar o 60.

Nid yw’r diwygiad arfaethedig yn ceisio cynyddu na lleihau budd-daliadau i unrhyw grŵp oedran. Mae’n diweddaru’r ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo budd-daliadau ymddeol fel eu bod yn adlewyrchu tybiaethau actiwaraidd cyfredol ac yn cyd-fynd â’r fethodoleg a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y cynlluniau pensiwn barnwrol. Gall y ffactorau diwygiedig arwain at ganlyniadau sy’n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar fudd-daliadau pensiwn, yn dibynnu ar y tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir, felly nid ydym o’r farn y bydd y cynnig o reidrwydd yn arwain at unrhyw anfantais i farnwyr hŷn. Bwriad y diwygiad yw sicrhau bod budd-daliadau’n cael eu cyfrifo ar sail deg, gyson a chyfredol actiwaraidd a’i fod yn ffordd gymesur o gyflawni’r nod dilys hwnnw.

Rydym o’r farn bod cyfiawnhad dros y diwygiad arfaethedig gan ei fod yn sicrhau bod budd-daliadau pensiwn yn cael eu cyfrifo’n glir, yn gyson ac yn deg ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt drwy ddefnyddio tybiaethau actiwaraidd cyfredol a chysoni’r dull gweithredu â Chynllun Pensiwn Barnwrol 2015 (JPS15) a Chynllun Pensiwn Barnwrol 2022 (JPS22).

### iii. Yr eglurhad ynghylch pryd y daw enillion ffioedd yn bensiynadwy yn JPS22

Mae’r eglurhad hwn yn debygol o fod yn fwyaf perthnasol i farnwyr y telir ffi iddynt, gan ei fod yn cadarnhau bod enillion yn cael eu hystyried yn bensiynadwy pan eu telir yn hytrach na phan gynhaliwyd y gwasanaeth neu’r eisteddiad cysylltiedig. Mae hyn yn adlewyrchu’r sail y mae enillion pensiynadwy eisoes yn cael eu gweinyddu’n ymarferol a’i fwriad yw egluro’r sefyllfa yn y rheoliadau.

Gall barnwyr y telir ffi iddynt fod yn fwy tebygol na barnwyr cyflogedig o rannu nodweddion gwarchodedig hil, oedran a rhyw, gan fod y farnwriaeth y telir ffi iddynt yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd, yn iau, ac mae’n cynnwys cyfran uwch o fenywod.

Rydym yn cydnabod y gallai’r adeg y daw enillion yn bensiynadwy gael effaith fach ar ailbrisiad mewn swydd croniadau pensiwn rhai barnwyr sy’n derbyn ffi. Fodd bynnag, mae’r diwygiad arfaethedig yn eglurhad i adlewyrchu’r arferion presennol.

Rydym o’r farn bod cyfiawnhad dros y diwygiad arfaethedig fel ffordd gymesur ac angenrheidiol o gyflawni nod dilys o ddarparu mwy o eglurder yn y rheoliadau i adlewyrchu ar ba sail y mae enillion pensiynadwy eisoes yn cael eu gweinyddu’n ymarferol.

Er ein bod wedi nodi rhai effeithiau posibl sy’n ymwneud ag oedran, hil a rhyw, rydym o’r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb yn gyffredinol. Maent yn cefnogi’r nodau dilys o sicrhau gweithrediad clir, cyson, cywir ac effeithiol y cynlluniau pensiwn barnwrol fel bod deiliaid swyddi barnwrol yr effeithir arnynt yn cael y buddion pensiwn a fwriadwyd o dan reolau’r cynllun. Rydym o’r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn ffordd gymesur ac angenrheidiol o gyflawni’r nodau dilys hynny oherwydd eu bod wedi’u targedu at y darpariaethau y mae angen eu hegluro, eu diweddaru neu eu hymestyn.

**Gwahaniaethu ar sail anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol**
Nid ydym yn disgwyl y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn arwain at wahaniaethu yn deillio o anabledd nac unrhyw ofyniad i wneud addasiadau rhesymol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried unrhyw geisiadau am addasiadau rhesymol fesul achos.

**Aflonyddu ac erledigaeth**
Nid ydym yn rhagweld y byddai gweithredu'r diwygiadau arfaethedig yn arwain at risg o aflonyddu nac erledigaeth.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal**
Gall rhai o'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar ddeiliaid swyddi barnwrol yr effeithir arnynt.

Yn benodol, byddai'r diwygiadau sy'n ymwneud â swyddi ailgyflogi yn yr Alban a swyddi tribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon yn cefnogi mynediad deiliaid swyddi o fewn y cwmpas at hawliau pensiwn.

Rydym wedi ystyried a allai'r diwygiadau hyn fod yn arbennig o berthnasol i hil, sy'n cynnwys cenedligrwydd, oherwydd eu bod yn berthnasol i swyddi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym o'r farn y byddent yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gysoni triniaeth pensiwn y deiliaid swydd hynny â threfniadau tebyg mewn rhannau eraill o'r DU.

**Meithrin cysylltiadau da**
Gall darparu hawl pensiwn ar delerau cyfartal rhwng barnwyr o wahanol wledydd gefnogi'r gofyniad hwn yn gadarnhaol.

**Data**
Ni ellir pennu union nifer y barnwyr y gallai'r diwygiadau arfaethedig effeithio arnynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth isod yn rhoi niferoedd bras ar gyfer categorïau'r barnwyr y gallai hyn effeithio arnynt.

Amrywiaeth y Farnwriaeth: Mae Ystadegau 2025[1], yn Nhabl 3.1, yn darparu ffigurau cyffredinol ar gyfer y farnwriaeth. Mae Tabl 1 isod yn nodi dadansoddiad yn ôl grŵp oedran. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r farnwriaeth gyfan, gan gynnwys barnwyr sydd ond â gwasanaeth yn JPS15 neu JPS22. Felly, gall cyfran y barnwyr ym mhob categori oedran sy'n aelodau o FPJPS fod ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn Nhabl 1. Efallai na fydd rhai swyddi datganoledig sy'n dod o dan FPJPS yn cael eu cynnwys yn y data chwaith.

[1] Amrywiaeth y Farnwriaeth: Ystadegau 2025 - GOV.UK

**Tabl 1: Cyfran y barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffi iddynt sydd mewn swydd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr yn ôl grŵp oedran, ar 1 Ebrill 2025. Gweler nodiadau 1 i 3.**

| Grŵp oedran | O dan 40 oed | 40–49 | 50–59 | 60–69 | Dros 70 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y barnwyr y telir ffi iddynt | 7% | 31% | 38% | 27% | 7% |
| Canran y barnwyr cyflogedig | 2% | 19% | 42% | 34% | 3% |

**Nodyn 1:** Mae'r ystadegau'n cynnwys yr holl dribiwnlysoedd a weinyddir gan GLITEF ac nid ydynt yn cynnwys tribiwnlysoedd eraill.

**Nodyn 2:** Mae'r ystadegau hefyd yn cynnwys deiliaid swyddi yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn awdurdodaethau sydd â chylch gwaith ar draws Prydain Fawr/y DU.

**Nodyn 3:** I gael rhagor o wybodaeth, gweler y troednodiadau i ystadegau Amrywiaeth y farnwriaeth 2025: Tabl 3.1: Prif benodiad barnwyr ac aelodau nad ydynt yn gyfreithiol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr: oedran a math o gontract drwy benodiad.

Disgwylir i aelodau y mae'r cynnig i ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer prynu neu amrywio buddion ychwanegol yn effeithio arnynt fod yn fwy tebygol o ddod o fewn y categorïau oedran 60–69 oed a 70 oed a throsodd oherwydd bod cymhwysedd ar gyfer yr ymarferion hynny'n dibynnu ar fod â gwasanaeth ffi perthnasol rhwng 31 Mawrth 1995 a 6 Ebrill 2006.

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cynllun Pensiynau Barnwrol[2] yn datgan bod 9,086 aelod o FPJPS ar 31 Mawrth 2025. Rydym yn disgwyl y gallai llawer o aelodau FPJPS fod o fewn cwmpas yr ymarferion prynu neu amrywio buddion ychwanegol. Nid yw proffil oedran yr aelodau hyn yn cael ei gofnodi ar wahân.

### Casgliad

Rydym wedi ystyried effeithiau'r diwygiadau arfaethedig hyn ar gydraddoldeb yn ofalus. Lle gallai rôl, aelodaeth o'r cynllun, oedran neu agosatrwydd at ymddeol effeithio mwy ar rai grwpiau, rydym o'r farn bod cyfiawnhad dros unrhyw anfantais bosibl fel ffordd gymesur ac angenrheidiol o gyflawni'r nodau dilys o weinyddu'r cynlluniau pensiwn barnwrol yn glir, yn gyson, yn gywir ac yn effeithiol. Rydym hefyd wedi nodi y gallai rhai newidiadau fod o fudd i ddeiliaid swyddi barnwrol yr effeithir arnynt a chael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

Felly, rydym o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwn yn adolygu'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb wrth baratoi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn a byddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth a ddarperir.

2 Cynllun Pensiynau Barnwrol – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei gwneud yn ofynnol i ni asesu canlyniadau ieithyddol polisïau sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru.

Mae fersiwn Cymraeg o'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gyhoeddi. Nid oes unrhyw ganlyniadau ieithyddol i'r gwelliannau arfaethedig sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru.

## Dyletswydd Egwyddorion Amgylcheddol

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion y Goron i roi 'sylw dyledus' i'r datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol.[3]

Mae'r pum egwyddor yn y datganiad polisi hwn, fel y'u nodir yn adran 17(5) o Ddeddf yr Amgylchedd, yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel meincnodau llwyddiannus ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd. Wrth lunio polisi, a lle bo'n berthnasol, bydd angen i weinidogion ystyried y canlynol:

- yr egwyddor integreiddio
- yr egwyddor atal
- yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu
- yr egwyddor ragofalus

Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i'r pum egwyddor hyn drwy offerynnau a phrosesau rhyngwladol.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau amgylcheddol yn sgil y diwygiadau arfaethedig.

3 Datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol - GOV.UK (www.gov.uk)